# EDT2 11-04 (draft min)

# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

## Cofnodion Drafft

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 7 Gorffennaf 2004 |
| **Amser** | 9.00 hyd 12.30 |
| **Lleoliad** | Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd |

## Yn bresennol

| **Aelodau'r Pwyllgor** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Christine Chapman | Cwm Cynon |
| Andrew Davies (Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth) | Gorllewin Abertawe |
| Brian Gibbons | Aberafan |
| Christine Gwyther (Cadeirydd) | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro |
| Lisa Francis | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Elin Jones | Ceredigion |
| Lynne Neagle | Tor-faen |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Jenny Randerson | Canol Caerdydd |

## Swyddogion

| | |
|---|---|
| Bob Macey | Pennaeth yr Is-adran Polisi Economaidd |
| David Hobbs | Yr Is-adran Buddsoddi a Rheoli Corfforaethol |
| Denzil Jones | Pennaeth yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |
| Laurie Pavelin | Pennaeth yr Is-adran Atebolrwydd Ariannol |

## Yn bresennol hefyd

| | |
|---|---|
| Jonathan Jones | Prif Weithredwr, Bwrdd Croeso Cymru |

Steve Webb — Cyfarwyddwr Strategaeth a Chyfathrebu, Bwrdd Croeso Cymru

## Yr Ysgrifenyddiaeth

John Grimes — Clerc
Lynsey Hazzard — Dirprwy Glerc

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1. Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

### Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth EDT2 11-04 (p1)

1. Cyflwynodd y Gweinidog y papur a dywedodd wrth yr Aelodau iddo ysgrifennu at y Cadeirydd ynglyn â defnyddio gweithdrefnau gweithredol i roi mewn grym y Welsh Development Agency Increase to Financial Limit Order 2004. Byddai'r Gorchymyn yn cynyddu terfyn ariannol statudol Awdurdod Datblygu Cymru o £2bn i £3bn er mwyn sicrhau cyllid ar gyfer Awdurdod Datblygu Cymru i mewn i dymor llywodraeth nesaf y Cynulliad. Dywedodd y Gweinidog na chafodd y swyddogion wybod am y sefyllfa tan 8 Mehefin a golygai'r rhybudd byr hwn nad oedd y weithdrefn arferol yn gymwys. Pryderai'r Aelodau fod y gweithdrefnau gweithredol yn cael eu defnyddio a theimlent y dylai'r Gweinidog fod wedi cael mwy o rybudd ynglyn â sefyllfa ariannol Awdurdod Datblygu Cymru, o ystyried bod gwariant cyhoeddus ynghlwm wrth hynny. Gofynnodd yr Aelodau a fyddai modd defnyddio gweithdrefnau gweithredol i gymeradwyo swm cymharol fach o arian i gynnal yr Awdurdod dros dro hyd nes y gellid cynnal dadl mewn cyfarfod llawn yn yr hydref. Dywedodd y swyddogion y byddai'n rhaid cael cyngor cyfreithiol ynglyn â hyn ond ychwanegwyd mai mater technegol ydoedd i bob pwrpas.
2. Cododd Aelod fater o bryder ynglyn â'r gwariant arfaethedig ar ffyrdd. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn trafod y gwariant trafnidiaeth ar gyfer y dyfodol gyda'r Gweinidog dros Gyllid yn rhan o'r adolygiad cyfredol ar y gyllideb a'r gwaith o roi Cynllun Gofodol Cymru ar waith.
3. Mewn perthynas â gwariant y Gronfa Adfywio Lleol cytunodd y Gweinidog i roi i'r Aelodau gopi o'i araith i Sefydliad Bevan a hefyd ffigurau gwario cyfredol y Gronfa Adfywio Lleol ar gyfer awdurdodau lleol unigol. Dywedodd y Gweinidog fod cronfeydd strwythurol yn flaenoriaeth uchel ac mai'r broblem yn gyffredinol o fewn awdurdodau lleol oedd diffyg capasiti, sef prinder pobl i roi prosiectau ar waith. Roedd angen mynd i'r afael ag adfywio drwy fabwysiadu dull cydgysylltiedig, trawsawdurdod o weithio. [Gweithredu: y Gweinidog Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth]
4. Mewn ymateb i gwestiwn ynglyn â chaffael gwasanaethau yn y sector cyhoeddus dywedodd y Gweinidog fod Tasglu wedi'i sefydlu i edrych ar gaffael. Câi'r system ei harchwilio'n ofalus er mwyn sicrhau mwy o degwch i Gymru. Dywedodd y Gweinidog y câi argymhellion y Tasglu eu hadrodd i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth. [Gweithredu: y Gweinidog

Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth]

5. Mynegwyd pryder ynghylch yr adroddiadau bod 13% o swyddi gweithgynhyrchu wedi'u colli yng Nghymru o'i gymharu â'r cynnydd yn Sbaen, yr Almaen, Ffrainc a'r Eidal. Dywedodd y Gweinidog fod dyfodol disglair i weithgynhyrchu yng Nghymru ac er y bu colledion roeddent yn llai o'u cymharu â'r Deyrnas Unedig gyfan. Bu cynnydd yn nifer y swyddi gweithgynhyrchu tra chrefftus ac yn gyffredinol nid oedd economïau cystadleuwyr yn Ewrop yn perfformio cystal.
6. Mynegodd yr Aelodau bryder nad oedd cost y cytundeb PFI ar yr A55 ar Sir Fôn wedi'i gwneud yn gyhoeddus gan felly leihau tryloywder y llywodraeth. Dywedodd y swyddogion fod y contractwr yn ystyried bod y wybodaeth yn sensitif yn fasnachol. Awgrymodd yr Aelodau y dylai contractau PFI yn y dyfodol bennu y dylai ffigurau o'r fath fod ar gael i'r cyhoedd. Dywedodd y swyddogion fod y ddarpariaeth gyllidebol a osodwyd o'r neilltu ar gyfer tollau cysgodol ar gael ar wefan y Cynulliad.
7. Ynglyn ag ymgyrch yr haf yn erbyn yfed a gyrru holodd yr Aelodau a oedd y grwp targed sef dynion ifanc sy'n gyrru yn gywir. Dywedodd y Dirprwy Weinidog mai dynion ifanc a phobl hyn â phroblemau alcohol oedd y prif dargedau.
8. Mewn ymateb i gwestiwn ynglyn â CORUS, dywedodd y Gweinidog fod newidiadau wedi'u cyflwyno i gynyddu effeithlonrwydd ac mai newidiadau yn yr economi byd eang oedd yn gyfrifol am safle masnachu sefydlog cyfredol CORUS.
9. O ran trosglwyddo nwyddau o'r ffyrdd i'r rheilffyrdd, dywedodd y Gweinidog iddo estyn gwahoddiad i'r Grwp Cludo Nwyddau ar y Rheilffyrdd i ymuno â'r Fforwm Trafnidiaeth.
10. Cyfeiriodd Aelod at adroddiad diweddar ar yr A465, Ffordd Blaenau'r Cymoedd, a baratowyd gan Sefydliad Bevan ac a godai rai materion pwysig. Cytunodd y Cadeirydd i drefnu trafodaeth ar y mater yn ystod tymor yr hydref.

**Eitem 3: Bwrdd Croeso Cymru: Cynllun Corfforaethol 2005-2006 ac Adroddiad Perfformiad Blwyddyn Gyfan 2003-2004**
**EDT2 11-04 (p2)**

1. Cyflwynodd Jonathan Jones y papur a dywedodd y bu cynnydd o 14% yn y gwariant gan ymwelwyr yng Nghymru dros y llynedd a bod 85% o fusnesau wedi'u graddio fel eiddo 3, 4 neu 5 seren.
2. Gofynnodd yr Aelodau a oedd y cynnydd yn y gwariant gan ymwelwyr yn ganlyniad i gymorth cronfeydd strwythurol. Dywedodd Jonathan Jones fod y cronfeydd strwythurol wedi caniatáu i Fwrdd Croeso Cymru drefnu ymgyrch farchnata nas gwelwyd mo'i thebyg o'r blaen. Teimlai mai hyn, yn hytrach na'r tywydd, oedd wedi cyfrannu at y cynnydd.
3. Mewn ymateb i gwestiwn ynglyn â theithiau awyr, dywedodd Jonathan Jones fod maes awyr Cymru Caerdydd yn bwysig iawn mewn perthynas â thwristiaeth. Y gobaith, drwy sicrhau cymorth gan y Gronfa Datblygu Llwybrau, oedd cynnig gwasanaeth rheolaidd trawsatlantig cenedlaethol.
4. O ran cynlluniau asesu ansawdd, dywedodd Jonathan Jones fod y cynllun yng Nghymru yn efelychu'r Cynllun Sicrhau Ansawdd Atyniadau Ymwelwyr (VAQAS) sydd yn Lloegr. Cytunodd Jonathan Jones i roi mwy o wybodaeth i'r Aelodau am y Dangosyddion Perfformiad Allweddol. [Gweithredu: Bwrdd Croeso Cymru]

5. Ynglyn â'r gyllideb, dywedodd Jonathan Jones na allai Bwrdd Croeso Cymru gymryd unrhyw benderfyniadau gan WEFO yn ganiataol ond roeddent yn gobeithio bod yn llwyddiannus eto gyda'u cais am arian Amcan Un. Roeddent yn disgwyl cael canlyniad y cais am Grant Cyfalaf ym mis Medi 2004. Petai'n aflwyddiannus, fodd bynnag, byddai Bwrdd Croeso Cymru yn parhau i weithredu gyda chyllid o £22.5m.
6. Mewn ymateb i gwestiynau am dwristiaeth a datblygiadau yng Nghymoedd y De, dywedodd Jonathan Jones ei bod hi'n anodd cael ymwelwyr i fynd i ymweld ag ardaloedd o amddifadedd. Dywedodd na welai mai rôl bennaf Bwrdd Croeso Cymru oedd hybu cyfiawnder cymdeithasol ac nid oedd hyn wedi'i gynnwys yn eu llythyr cylch gwaith. Roedd arian o Ewrop wedi'i dderbyn er mwyn adfywio trefi a fyddai, gobeithio, yn arwain at arian pellach gan y sector preifat. Roedd materion yn ymwneud â sgiliau yn bwysig ac roedd angen darparu'r hyfforddiant cywir ar gyfer y diwydiant. Roedd angen tynnu sylw at faint y broblem a ddeilliai o'r prinder sgiliau yn y diwydiant.
7. Pryderai'r Aelodau fod diffygion yn y drafnidiaeth gyhoeddus yn atal datblygiad y farchnad dwristiaeth yng Nghymru. Dywedodd Jonathan Jones ei bod hi'n anodd cynllunio teithiau gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus a bod angen cydweithredu rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat er mwyn goresgyn y problemau.
8. Ynglyn â graddio llety, cytunodd Jonathan Jones i roi gwybodaeth am y cynlluniau peilot ar safonau graddio. Yn ogystal â hynny roedd Bwrdd Croeso Cymru yn gweithio gyda chyrff eraill er mwyn cysoni graddfeydd ledled y DU. Y disgwyl oedd y byddai'r broses hon o gysoni wedi'i chwblhau erbyn cyhoeddi llyfrynnau 2008. [Gweithredu: Bwrdd Croeso Cymru]
9. Mewn ymateb i gwestiwn am dwristiaeth ddiwylliannol, dywedodd Jonathan Jones fod Bwrdd Croeso Cymru yn cynnwys elfennau diwylliannol yn rhan o'u gwaith wrth hysbysebu, yn hytrach na hysbysebu'n uniongyrchol.
10. Ynglyn â Visit Britain, dywedodd Jonathan Jones fod Bwrdd Croeso Cymru mewn cysylltiad cyson â'r corff a oedd wedi cytuno i feddwl yn strategol ynglyn â'r hyn y gallai ei wneud i hybu Cymru a'r Alban.
11. Ynglyn â Ffordd i Ffyniant, dywedodd Jonathan Jones fod y gwariant a gynlluniwyd yn gymharol â gwariant cronfeydd strwythurol ac roedd yn is ym mlwyddyn 2 oherwydd roedd y gronfa strwythurol ddisgwyliedig yn is.
12. Gofynnwyd i Fwrdd Croeso Cymru a oedd y cynnydd o 14% i'w weld ar draws Cymru. Dywedodd Jonathan Jones y byddai'n darparu ffigurau ar gyfer yr Aelodau a ddangosai'r twf mewn twristiaeth mewn gwahanol rannau o Gymru. [Gweithredu: Bwrdd Croeso Cymru]

**Eitem 4: Awdurdod Datblygu Cymru: Adroddiad Blynyddol 03-04, Blaenoriaethau ac Adnoddau 05-06 i 07-08, Cynllun Busnes 04-07**
**EDT2 11-04 (p3)**

1. Gohiriwyd yr eitem hon tan gyfarfod y Pwyllgor ar 15 Gorffennaf.

**Eitem 5: Partneriaethau Cyhoeddus a Phreifat**
**EDT2 11-04 (p4)**

1. Amlinellodd y swyddogion yr amryw ffyrdd y gallai Partneriaethau Cyhoeddus a Phreifat gael eu llunio a’r effaith y gallent ei chael ar reolau Ewropeaidd yn ymwneud â chaffael.
2. Roedd rhai o’r Aelodau yn erbyn y math hwn o gontract mewn egwyddor ond roeddent yn cydnabod petaent yn bod ei bod hi’n bwysig eu bod yn cael eu rheoli’n briodol.
3. Credai’r Aelodau mai’r prif ofynion oedd y dylai contractau o’r fath fod mor syml ag y bo modd ac y dylent fod yn hollol dryloyw o ran eu cynnwys. Nododd yr Aelodau y gallai cyfrinachedd masnachol gael ei godi fel mater – ond ystyrient, er tryloywder, efallai y byddai’n rhaid i weithredwyr masnachol dderbyn petaent am fod yn rhan o gytundeb o’r fath y byddai angen iddynt fod yn fwy agored nag a ddisgwylid yn arferol.
4. Roedd yr Aelodau hefyd yn cydnabod bod angen i’r arianwyr gadw eu hawliau ‘camu i mewn’ er mwyn diogelu buddiannau corff y gwasanaeth cyhoeddus sy’n rhan o’r bartneriaeth a’r cyhoedd a fyddai’n elwa o gontractwyr y gwasanaeth. Roeddent hefyd yn croesawu’r cytundebau fframwaith a roddai ddull mwy hyblyg o weithio gan barhau i ddiogelu’r angen am gystadleuaeth agored.
5. Gan grynhoi’r drafodaeth, dywedodd y Cadeirydd tra bo’r Comisiwn Ewropeaidd wedi gosod nifer o gwestiynau penodol yn eu dogfen ymgynghori, roeddent yn fwy priodol i gyrff a oedd â phrofiad uniongyrchol o Bartneriaethau Cyhoeddus a Phreifat. Dywedodd ei bod yn cynnig ysgrifennu gan amlinellu’n syml safbwynt y Pwyllgor ar y materion hyn ac y byddai’n dosbarthu drafft i’r Aelodau gytuno arno.

**Eitem 6: Blaenraglen Waith y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth EDT2 11-04 (p5)**

1. Soniodd yr Aelodau am lwyth gwaith trwm y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth a phwysigrwydd caniatáu digon o amser ar gyfer hyn ac yn arbennig y gwaith o graffu ar Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad a syrthiai o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth. Roedd yr Aelodau yn amharod fodd bynnag o ddilyn trywydd sefydlu grwp ‘rapporteur’ at y dibenion hyn oherwydd, o fewn portffolio’r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, roedd y Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yn rhy fawr ac yn rhy bwysig i’w gwaith gael ei ystyried gan ran o’r Pwyllgor yn unig.
2. Roedd yr Aelodau yn awyddus i’r Pwyllgor ymgymryd ag ymweliadau astudio ac ymestyn eu gwybodaeth o ‘arferion gorau’ mewn mannau eraill fel y gallent wneud cyfraniad adeiladol a phositif i ddatblygu polisïau. Dywedodd y Cadeirydd y byddai’n ystyried hyn ac yn dod yn ôl â chynigion.
3. Roedd yr Aelodau’n cefnogi pennu polisi gwyddoniaeth fel testun yr adolygiad polisi nesaf. Nodwyd y byddai hyn yn gorgyffwrdd â gwaith y Pwyllgorau eraill – ond gwnaeth yr Aelodau y sylw y digwyddodd hynny gyda’r adolygiadau ar effeithlonrwydd ynni. Tra ei bod hi’n amlwg bod angen rhoi sylw i fuddiannau Pwyllgorau eraill, roedd hi’n bwysig peidio â bod yn rhy gyfyng wrth ymgymryd â gwaith y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.
4. Cytunwyd hefyd y dylai datblygu’r A465 gael ei nodi’n destun trafodaeth posibl ar gyfer adolygiad polisi, cyflym o bosibl, at y dyfodol er efallai y byddai’n briodol dechrau drwy drafod Papur Polisi diweddar Sefydliad Bevan. Efallai y gallai’r Pwyllgor hefyd ystyried adroddiad Gweithgor y Cynulliad ar Ofal Plant.

**Eitem 7: Deddfwriaeth yr UE**
**EDT2 11-04 (p6)**

1. Gwahoddwyd yr Aelodau i roi i'r Clerc unrhyw sylwadau ynglyn ag eitemau yn y papur yr oeddent o'r farn y dylai'r Pwyllgor eu hystyried mewn rhagor o fanylder.

**Eitem 8: Cofnodion y cyfarfod diwethaf**
**EDT2 09-04 Cofnodion**
**EDT2 08-04 Camau heb eu Cymryd**

1. Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin.
2. Cyfeiriodd Aelod at y drafodaeth a gafwyd yn y cyfarfod blaenorol (29 Mehefin) y byddai'r cofnodion ar ei gyfer yn cael eu hystyried yn ffurfiol yn y cyfarfod nesaf. Mynegwyd pryder ynglyn â'r penderfyniad i drafod adroddiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar y Mesur Trafnidiaeth (Cymru) yn breifat gan fod hyn yn gosod cynsail a âi yn groes i egwyddorion y Cynulliad o fod yn agored. Nododd y Cadeirydd fod Rheol Sefydlog 8.24(vi) yn caniatáu i Bwyllgorau gyfarfod yn breifat at ddibenion trafod argymhellion adroddiad yr oedd yn bwriadu ei gyhoeddi. Dywedodd ei bod hi'n arferiad gan y Pwyllgor Materion Cymreig ystyried ei adroddiadau yn breifat ac mai effaith cyhoeddi adroddiad drafft y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth fyddai cyhoeddi adroddiad y Pwyllgor Materion Cymreig hefyd. Am y rheswm hwn y cynigiodd y byddai'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth yn ystyried ei adroddiad yn breifat. Roedd yr Aelodau yn cytuno.

**Eitem 9: Mesur Trafnidiaeth (Cymru) Drafft: Adroddiad Drafft**

Cytunwyd yn y cyfarfod ar 29 Mehefin 2004 y dylid ystyried yr eitem hon yn breifat o dan Reol Sefydlog 8.24(vi). Gan fod yr adroddiad bellach wedi'i gyhoeddi, nid yw cofnod y drafodaeth yn gyfrinachol mwyach.

1. Ystyriodd yr Aelodau yr adroddiad drafft a baratowyd gan y Clerc a chytunwyd ar amryw newidiadau i'r testun a'r argymhellion. Gofynnwyd i'r Clerc ddosbarthu copi diwygiedig o'r adroddiad ymysg yr Aelodau er mwyn iddynt gytuno arno drwy e-bost erbyn y peth cyntaf fore trannoeth (8 Gorffennaf).
2. Roedd yr Aelodau'n anghytuno ynghylch a ddylid cynnwys brawddeg olaf yr argymhelliad drafft ar gyfer Cymal 5: "We recommend that Clause 5(4) (a) be reworded to make it a requirement that the majority of members of Joint Transport Authorities must be appointed by the local authorities."
3. Cafwyd cynnig ffurfiol i ddileu'r frawddeg a phleidleisiodd yr Aelodau:

O blaid (2): Alun Cairns, Jenny Randerson
Yn erbyn (6): Chris Gwyther, Brian Gibbons, Elin Jones, Janet Davies, Lynne Neagle, Lisa Francis

Penderfynwyd cadw’r frawddeg yn yr adroddiad.

## Gwasanaeth y Pwyllgorau Gorffennaf 2004